



# Hysbysiad Preifatrwydd Cyflogaeth

Fel rhan o'n proses gwneud cais, recriwtio a chyflogaeth i ymgeiswyr, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu, prosesu a storio gwybodaeth bersonol amdanoch. Rydym yn prosesu'r wybodaeth hon at ystod o ddibenion yn ymwneud â'r broses recriwtio er mwyn cefnogi eich cais ac i'n galluogi i benderfynu a ydych yn gymwys ac yn addas i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, a/neu i gyflawni ein swyddogaethau fel cyflogwr a chydymffurfio â rhai rhwymedigaethau statudol. Mae'r ddogfen hon yn nodi:

- Pam ein bod yn casglu eich gwybodaeth bersonol
- Pa wybodaeth a gesglir
- Sut mae'n cael ei phrosesu

Rydym yn defnyddio'r term "prosesu" drwyddi draw yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn er mwyn ymdrin â phob gweithgaredd sy'n cynnwys eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys ei chasglu, ei thrin, ei storio, ei rhannu, ei defnyddio, ei throsglwyddo, cael mynediad ati a'i dinistrio.

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r rheolydd data ac mae'n ymroddedig i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Swyddog Diogelu Data y gallwch gysylltu ag ef drwy anfon e-bost at [dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu drwy ffonio 0300 065 3000.

## Y cyfnod ymgeisio

### Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu amdanoch chi?

#### Eich cais\*

Pan fyddwch yn gwneud cais am swydd gyda ni (p'un a ydych eisoes yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru neu beidio), gofynnir ichi roi gwybodaeth bersonol i gefnogi eich cais ac er mwyn ein galluogi i benderfynu a ydych yn gymwys ac yn addas i weithio gyda ni. Bydd hyn yn cynnwys yr wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnom i ddewis yr ymgeisydd cywir ar gyfer y swydd, a bydd yn cynnwys enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost, manylion cyflogaeth yn y gorffennol (gan gynnwys geirdaon), cymwysterau addysgol, sgiliau, a gweithgareddau gwirfoddoli. Os ydych yn llwyddiannus yn ystod y broses gyflogi, bydd unrhyw wybodaeth bersonol a roddwyd i ni yn cael ei defnyddio fel rhan o'ch cofnod adnoddau dynol a gedwir gennym.

#### Gwybodaeth am amrywiaeth\*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, ac yn gweithredu

cynllun cyfweiliad gwarantedig ar gyfer unrhyw un ag anabledd fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw ymgeiswyr am swyddi ac aelodau o staff yn cael eu trin yn gyfartal, ac ni fyddwn yn gwahaniaethu ar sail rhyw, statws priodasol, hil, tarddiad ethnig, lliw, cenedligrwydd, tarddiad cenedlaethol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu oedran. Fel rhan o'n hymrwymiad at gyfleoedd cyfartal, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwyd gennych o bryd i'w gilydd er mwyn monitro amrywiaeth. Bydd yr holl wybodaeth o'r fath yn cael ei defnyddio ar sail ddienw. Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am amrywiaeth.

### **Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Yn ystod y cam o wneud cais, bydd eich gwybodaeth bersonol ar y ffurflen gais yn cael ei rhannu'n fewnol gyda'r bobl ac at y dibenion canlynol (nid yw hyn yn cynnwys eich ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth):

- Aelodau o'r panel recriwtio er mwyn asesu eich cais a'i symud yn ei flaen
- Asesu pa mor addas ydych (sgiliau, cymwysterau a/neu brofiad ar gyfer y swydd)
- Y gweithgareddau sydd eu hangen i gwblhau'r gwiriadau cyn-cyflogaeth os yw eich cais yn llwyddiannus
- Cyflogeion yn yr adran adnoddau dynol sy'n gyfrifol am brosesau adnoddau dynol penodol (er enghraifft, recriwtio, asesu, sgrinio cyn-cyflogaeth)
- Cyflogeion archwilio ac ymchwilio o ran archwiliadau/ymchwiliadau penodol
- Mae staff yr adran adnoddau dynol yn defnyddio eich ffurflen cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn casglu'r wybodaeth sydd ei hangen at ddibenion monitro – caiff ei chasglu'n ddienw a bydd y ffurflen wreiddiol yn cael ei dinistrio'n gyfrinachol

### **Y cam cynnig**

Yn ystod y cam cynnig a chyn i chi ddechrau gweithio gyda ni, byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth gennych:

#### **Gwiriadau cyn-cyflogaeth**

Cyn i chi ddechrau gweithio gyda ni neu newid swyddi o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i gynnal gwiriadau cyn-cyflogaeth, gan gynnwys gwiriadau cofnodion troseddol, gwybodaeth am eich cenedligrwydd / eich fisa / a'ch trwydded hawl i weithio (e.e. pasbort, trwydded yrru, rhifau yswiriant gwladol). Cliciwch ar y ddolen hon i gael ragor o wybodaeth am wiriadau cyn-cyflogaeth.

#### **Datganiad iechyd**

Fel bod modd i ni nodi a oes gennych unrhyw gyflyrau iechyd a allai ei gwneud yn ofynnol inni wneud addasiadau rhesymol i'r swydd sydd wedi'i chynnig i ni. Efallai y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'n cynghorwyr iechyd galwedigaethol, y mae'n bosibl y byddant yn cysylltu â'ch meddyg teulu / arbenigwr ynglŷn ag unrhyw gyflwr sydd gennych yr ydym o'r farn a allai effeithio ar y ffordd y byddwn yn gofyn i chi weithio. Os ydych yn poeni am gyfrinachedd, efallai yr hoffech amgáu eich ffurflen wedi'i chwblhau mewn amlen wedi'i selio, i'w hagar yn unig gan ein cynghorydd iechyd galwedigaethol. Mae'n bosibl y bydd angen i ni drosglwyddo'r wybodaeth i'ch rheolwr llinell. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cael y wybodaeth angenrheidiol yn unig i fonitro eich gwaith a'i effaith ar eich cyflwr.

#### **Cyflogres**

Byddwn yn gofyn am eich manylion banc a'ch rhif yswiriant gwladol fel bod modd i ni

wneud taliadau cyflog a didyniadau pensiwn, a thalu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol.

### Cyswllt mewn argyfwng

Byddwn yn gofyn i chi am fanylion cyswllt mewn argyfwng, fel ein bod yn gwybod pwy i gysylltu â nhw rhag ofn eich bod yn cael argyfwng yn y gwaith.

### Yn ystod eich cyflogaeth

Bydd gwybodaeth bersonol amdanoch yn cael ei chynhyrchu trwy gydol eich cyfnod o gyflogaeth gyda ni.

Yn gyffredinol, byddwn yn casglu, dal a defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer:

- Rheoli eich cyflogaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gan gynnwys:
  - Rheoli perfformiad, dysgu a datblygu, monitro cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau disgyblu, gwrthdaro buddiannau, iechyd, diogelwch a llesiant, prosesu cyflog, ac aelodaeth sy'n gysylltiedig â thâl

Mae'n bosibl y bydd angen i chi roi gwybodaeth ychwanegol yn ystod eich cyfnod o gyflogaeth gyda ni er mwyn:

- Gyrru ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru
- Rotâu ymateb i ddiwyddiadau a rotâu wrth gefn
- Defnyddio'r cyfleusterau (manyion adnabod personol ar gyfer diogelwch adeiladau)

### Pwy sy'n derbyn eich gwybodaeth?

Er mwyn gweinyddu eich cyflogaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn gyfrinachol gyda'r darparwyr gwasanaeth allanol canlynol, sy'n rheoli'r swyddogaethau hyn ar ein rhan:

- Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Y darparwr iechyd galwedigaethol
- Gweinyddwyr pensiwn
- CThEM

Byddwn yn gofyn am eich caniatâd ysgrifenedig cyn rhoi unrhyw wybodaeth am eich cyflogaeth i drydydd partïon. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Geirdaon ar gyfer darpar gyflogwyr
- Geirdaon ariannol a roddir mewn cysylltiad â chais gweithiwr am forgais / eiddo rhent
- Geirdaon a roddir mewn cysylltiad ag achosion cyfreithiol

### Beth yw'n sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Byddwn yn dibynnu ar eich caniatâd i brosesu'r wybodaeth sydd â \* uchod, sy'n cael ei chasglu ar ddechrau'r broses recriwtio.

Rydym yn prosesu gwybodaeth a dogfennau i sefydlu eich hawl i weithio, oherwydd ei fod yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Caiff gwybodaeth o ran gwiriadau cofnodion troseddol, sy'n berthnasol os ydych yn cael cynnig swydd, ei phrosesu ar y sail fod angen gwneud hyn er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol neu byddwn yn gofyn am ganiatâd, os bydd angen.

O ran gwybodaeth am iechyd, bydd yn cael ei phrosesu yn dibynnu ar yr amgylchiadau ond, fel rheol, ar gyfer un o'r rhesymau canlynol: mae angen gwneud hyn er mwyn diogelu iechyd a diogelwch neu i atal gwahaniaethu ar sail anableded neu lle cafwyd caniatâd, os oes angen.

Unwaith y byddwn wedi dod o hyd i swydd ar eich cyfer, byddwn yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys gwybodaeth ariannol. Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni contract a chyflawni eich rôl ac i'n galluogi i'ch talu, yn dibynnu ar y trefniadau a'r amgylchiadau cytundebol penodol.

### **Unrhyw drosglwyddo i drydydd gwledydd a'r mesurau diogelu sydd ar waith**

Ni fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r UE.

### **Am ba hyd y bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?**

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich manylion yn cael eu cadw am uchafswm o 12 mis, a byddant yn cael eu dinistrio mewn modd cyfrinachol ar ôl hyn. Gallwch gael gwared ar eich manylion ar unrhyw adeg.

Os byddwn yn eich cyflogi o ganlyniad i'ch cais, bydd eich gwybodaeth bersonol a gasglwyd gennym yn rhan o'ch ffeil personél. Bydd hon yn cael ei storio a'i defnyddio at ddibenion sy'n gysylltiedig â'ch cyflogaeth neu eich cysylltiad â ni.

### **Beth yw hawliau'r unigolyn?**

Mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- Cael mynediad at eich gwybodaeth bersonol
- Gwrthwynebu i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol
- Cywiro, dileu, cyfyngu

Ewch i'r tudalennau diogelu data ar ein gwefan i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau. Dylai unrhyw geisiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru:

Swyddog Diogelu Data  
Cyfoeth Naturiol Cymru  
Maes y Ffynnon  
Ffordd Penrhos  
Bangor  
Gwynedd  
LL57 2DW

[dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:dataprotection@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

### **Diogelwch eich gwybodaeth**

Mae ein systemau adnoddau dynol a recriwtio yn cael eu hamddiffyn i sicrhau nad yw gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu mewn modd anghyfreithlon neu heb awdurdod, na chael ei cholli, ei dinistrio neu'i difrodi yn anfwriadol. Mae hyn yn cael ei wneud yn unol â'r polisi.

### **Sut i wneud cwyn**

Os nad ydych yn fodlon ar y ffordd y mae eich data personol wedi cael ei brosesu, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

[www.ico.org.uk](http://www.ico.org.uk)